# Adolygu'r dysgu

## Gan weithio gyda detholiad o hysbysebion, ystyriwch y cwestiynau canlynol ar gyfer pob hysbyseb:

- Nodwch ddwy o nodweddion yr hysbyseb ac eglurwch sut maen nhw'n nodweddiadol o hysbysebion print.
- Sut mae'r delweddau gweledol yn yr hysbyseb wedi cael eu defnyddio i hyrwyddo'r cynnyrch?
- Sut mae geiriau ac ymadroddion wedi cael eu defnyddio i ddwyn perswâd ar y gwyliwr?
- Eglurwch sut mae llythrennu neu waith graffeg yn cael eu defnyddio yn yr hysbysebion.
- Eglurwch sut mae pobl yn cael eu cynrychioli yn yr hysbyseb. Gwnewch sylwadau am iaith y corff a chodau dillad. A oes mathau neu stereoteipiau amlwg?
- Sut mae gosodiad yr hysbyseb wedi cael ei ddefnyddio i dynnu sylw cynulleidfa?
- Nodwch dair o nodweddion nodweddiadol yr hysbysebion. Eglurwch bwrpas pob nodwedd.
- Awgrymwch gynulleidfa darged ar gyfer yr hysbyseb. Eglurwch y rhesymau am eich dewis.
- Awgrymwch ddwy nodwedd yn un o'r hysbysebion sy'n creu apêl ymysg y gynulleidfa. Eglurwch eich dewis.
- Eglurwch sut gallai cynulleidfa ymateb i'r hysbyseb.
- Rhowch ddau reswm pam mae hysbysebion print yn rhan bwysig o ymgyrch farchnata.
- Rhowch ddau reswm pam mae hysbysebwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd hefyd i hyrwyddo eu cynnyrch.
- Meddyliwch am ymgyrch farchnata lwyddiannus. Eglurwch y rhesymau pam roedd yr ymgyrch yn llwyddiannus, yn eich barn chi.